Mae coedwigoedd trofannol yn hanfodol i fywyd ar y Ddaear, ac yn helpu i ddarparu'r amodau i fywyd ffynnu ar ein planed. Mae'r ecosystemau bioamrywiol hyn yn darparu ystod o fuddion i ni, neu wasanaethau ecosystem, sy'n amrywio o atafaelu carbon a rheoleiddio'r hinsawdd i buro aer a dŵr, o atal clefydau i ddarparu lloches, bwyd a meddyginiaeth. Heb sôn am y manteision rydym yn eu derbyn yn nhermau diwylliant, awch ac ysbrydoliaeth.

Ond mae ein coedwigoedd trofannol dan fygythiad. Yn ystod yr 20 mlynedd diwethaf, rydym wedi colli bron i 200 gwaith maint Cymru i ddatgoedwigo, sydd wedi cael ei sbarduno'n bennaf gan amaethyddiaeth ddwys. Mewn gwirionedd, **mae dros 70% o'r holl ddatgoedwigo trofannol** yn cael ei achosi gan lond llaw o gynhyrchion amaethyddol - cynhyrchion rydyn ni'n eu prynu, eu defnyddio a'u bwyta bob dydd, gan gynnwys cig eidion Brasil, soia (sy'n cael ei fwydo i dda byw yn bennaf), olew palmwydd, coffi a chacao / siocled. [1]

Yn aml, mae'r effeithiau hyn yn edrych fel petaent wedi cael eu dileu o'n bywydau bob dydd. Fodd bynnag, mae penderfyniadau rydym yn eu gwneud yma o ran y pethau rydym yn eu bwyta, eu prynu a'u defnyddio, sut rydym yn bancio, yn arbed ac yn buddsoddi, yn arwain at ganlyniadau dramor i goedwigoedd trofannol a'u trigolion. Rydym i gyd yn rhan o'r economi datgoedwigo.

Mae'r effeithiau ar fioamrywiaeth yn adnabyddus, ond mae'r effeithiau cymdeithasol yn llai hysbys. Er enghraifft, mae pobl frodorol wedi byw mewn harmoni a chydbwysedd mewn cynefinoedd/ecosystemau coedwigoedd am filoedd o flynyddoedd, gan stiwardio a pharchu'r tir, afonydd, planhigion ac anifeiliaid. Yn wir, mae coedwigoedd sydd yn cael eu diogelu gan bobl frodorol yn storio mwy o garbon ac yn cynnwys mwy o fioamrywiaeth na'r rhai sydd heb eu diogelu, ac eto, maen nhw'n wynebu bygythiadau cynyddol yn sgil amaethyddiaeth ddwys ar gyfer cynhyrchion fel soia, sydd yn cael eu defnyddio i fwydo da byw yma yn y DU. Mae Maint Cymru yn cefnogi pobl frodorol, fel Pobl y Guarani yng nghoedwig yr Iwerydd ym Mrasil. Mae eu pentrefi yn Nhalaith Paraná wedi'u hamgylchynu gan blanhigfeydd soia ungnwd, sy'n cael eu chwistrellu â phlaleiddiaid mor wenwynig a charsinogenig fel eu bod yn cael eu gwahardd yn y DU ac mewn llawer o wledydd eraill.[2.] Mewn tro erchyll, mae rhai o'r plaladdwyr hyn yn cael eu cynhyrchu yma yn y DU a'u hallforio dramor [3]

---

[1] https://ourworldindata.org/drivers-of-deforestation

[2] https://www.yvyrupa.org.br/2023/11/21/soy-corn-and-livestock-dominate-60-of-the-ava-guarani-peoples-territory-pr-reveals-study/

[3] https://www.theguardian.com/environment/2024/dec/08/pesticide-poisonings-brazil-chemicals-diquat-banned-uk-health-problems

Yn ôl ymchwil a gynhaliwyd gan Maint Cymru, WWF Cymru ac RSPB Cymru, mae 80% o fewnforion soia yng Nghymru a dros 50% o fewnforion palmwydd yn cael eu bwydo'n uniongyrchol i dda byw, gyda dofednod yn bwyta bron i hanner y bwyd soia sydd yn cael ei fewnforio[4]. Mae'r cysylltiad dinistriol hwn rhwng gwledydd y DU a gwledydd trofannol yn cael ei ddangos yn amlwg yn nalgylch afon Gwy, lle amcangyfrifir bod unedau dofednod dwys yn gartref i gyfanswm o dros 20 miliwn o adar ar unrhyw adeg benodol[5]. Mae ein chwant am gyw iâr rhad yn cael canlyniadau dinistriol ar gyfer natur a phobl, yma a thramor. Ni allwn anwybyddu'r berthynas wenwynig hon rhagor.

Dydy ein perthynas gydag olew palmwydd ddim llawer gwell. Mae olew palmwydd yn cael ei ddefnyddio yn aml fel amnewidiad ar gyfer cynhwysion mwy costus, ac mae'n cael ei ddarganfod yn hanner y cynhyrchion bwyd wedi'u pecynnu sydd yn cael eu gwerthu mewn archfarchnadoedd, y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn fwydydd wedi'u prosesu'n helaeth (UPF). Mae'r bwydydd hyn yn gysylltiedig gydag amrywiaeth o ganlyniadau iechyd gwael, gan gynnwys gordewdra, diabetes teip 2 a chlefyd y galon. Mae'r niwed i'n cynefinoedd/ecosystemau coedwigoedd yn sgil cynhyrchu nwyddau anghynaladwy yn cael ei adlewyrchu yn y niwed i'n hiechyd ein hunain.

Mae angen i ni newid ein deiet, a symud i ffwrdd o nwyddau sydd yn cael eu cynhyrchu'n ddwys i fodel bwyta 'llai, ond gwell'. Mae angen cefnogi ffermwyr i fabwysiadu arferion ffermio sy'n fwy cyfeillgar i natur, sy'n blaenoriaethu pobl a natur, fel ffermio adfywiol, organig ac amaethgoedwigaeth (ffermio gyda choed). Rydym angen deddfwriaeth gryfach hefyd i atal datgoedwigo rhag cael ei fewnforio yn y lle cyntaf. Rydym yn falch o weld bod Llywodraeth y DU, yn 2021, wedi cyflwyno deddfwriaeth newydd yn Neddf yr Amgylchedd i fynd i'r afael â datgoedwigo yng nghadwyni cyflenwi'r DU. Fodd bynnag, mae'r ddeddfwriaeth ond yn berthnasol i ddatgoedwigo anghyfreithlon, sy'n broblemus, gan fod llawer o gynefinoedd llawn bioamrywiaeth ar draws y byd naill ai heb ddigon o amddiffyniadau cyfreithiol, neu wedi cael yr amddiffyniadau hynny wedi'u datgymalu. Ar ben hynny, mae hyn ond yn gymwys i fusnesau sydd â throsiant blynyddol byd-eang o dros £50 miliwn, ac sy'n defnyddio dros 500 tunnell o nwyddau a reoleiddir y flwyddyn. Bedair blynedd yn ddiweddarach, nid yw'r is-ddeddfwriaeth wedi cael ei gweithredu eto, felly dydy hyn dal ddim wedi cael ei roi ar waith, er gwaethaf ymrwymiadau sydd wedi cael eu gwneud gan Lywodraeth y DU ac arweinwyr byd-eang eraill yn COP26 i atal a gwrthdroi datgoedwigo a diraddio tir erbyn 2030. Mae amser yn rhedeg allan ac mae'r dystiolaeth yn glir. Os ydym eisiau cyfyngu cynhesu byd-eang i 1.5 gradd, rhaid i ni weithredu nawr i atal a gwrthdroi datgoedwigo trofannol.

[4] https://sizeofwales.org.uk/wp-content/uploads/2022/12/wwf_risky_b_wales.pdf
[5] https://www.leighday.co.uk/our-services/group-claims/river-wye-claim/#TheDefendants

Ym Maint Cymru, rydym yn gweithio ar draws sectorau i ddylanwadu ar newid polisi ac ymddygiad mewn perthynas â nwyddau sy'n risg i goedwigoedd. Mae ein hymgyrch flaenllaw yn galw am i Gymru ddod yn genedl dim datgoedwigo a thrwy ein peilot cymunedau, rydym wedi dod ag ysgolion, busnesau, ffermydd, grwpiau cymunedol ac awdurdodau lleol yn Sir Fynwy at ei gilydd i fynd i'r afael â'u hôl troed tir tramor gyda'i gilydd. Mae plant ysgol wedi dysgu am yr effeithiau a'r atebion mewn perthynas â nwyddau sy'n risg i goedwigoedd, ymchwilio i'w bwydlenni ysgol, ail-lunio ryseitiau, codi ymwybyddiaeth ac wedi eirioli dros newid. Mae hyn wedi arwain at genhedlaeth newydd o wneuthurwyr newid a phleidlais unfrydol gan Gyngor Sir Fynwy i ddod yn gyngor Hyrwyddo Dim Datgoedwigo cyntaf Cymru. Mae llwyddiant yr ymgyrch hon yn ein hatgoffa o'r hyn y gallwn ei gyflawni gyda'n gilydd. Rydym bellach yn edrych ar efelychu'r model hwn mewn siroedd eraill i ledaenu'r ymgyrch ar draws y genedl gyfan. Gyda'n gilydd, gallwn greu newid cadarnhaol ar gyfer cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol, i bobl a'r blaned.

Maint Cymru - disgrifiad:

Mae'r elusen Maint Cymru yn gweithio dramor gyda Phobloedd Gynhenid a chymunedau coedwigoedd lleol i helpu i amddiffyn, cynnal ac adfer coedwigoedd, ac yng Nghymru/y DU, i addysgu a chodi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd coedwigoedd trofannol, ac i ddylanwadu ar newid polisi ac ymddygiad mewn perthynas â nwyddau sy'n risg i goedwigoedd.